

Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; Dechrau Ffres: Ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru. Gorffennaf 2019

1. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad ar ei ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru. Rwy'n falch o ddweud I bod argymhellion y Pwyllgor ar y cyfan yn cefnogi ein cyfeiriad polisi cyfredol ac yn cydnabod y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma.
2. Mae newid system gyfan ar waith ym maes deintyddiaeth yng Nghymru. Er mwyn adlewyrchu'r angen i wasanaethau deintyddol fod yn fwy ymatebol, yn fwy cyfartal, yn fwy effeithiol ac yn fwy ataliol, mae newid mewn cyfeiriad polisi yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a diwygio'r cytundeb deintyddol drwy gyfrwng newid system gyfan. Wrth wraidd hyn i gyd mae'r angen am fodolau newydd o ofal i gefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar y claf a mwy o ddefnydd o gymysgedd o'r sgiliau o fewn timau deintyddol.
3. Mae deintyddion, gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol, byrddau iechyd ac academyddion yn cydweithio i lunio ac i gyflwyno trawsnewid yn unol â *Cymru Iachach*. Rwy'n sylweddoli bod buddsoddiad effeithiol ac addas o adnoddau'n hyrwyddo ac yn creu amgylchedd a chyfleoedd ar gyfer ffyrdd gwell o weithio, ac mae hyn yn hybu newid ac yn galluogi arloesedd hefyd.
4. Rydym yn mabwysiadu dull 'profi ac addasu' o fewn y rhaglen diwygio contractau deintyddol i sicrhau bod newid yn mynd â ni i'r cyfeiriad cywir. Mae angen i'r diwygio fod yn deg ar dimau deintyddol, ar gyrrff iechyd ac ar gleifion. Nid yw Unedau Gweithgarwch Deintyddol gwerth isel yn cefnogi ansawdd ac maent yn cael eu tynnu allan o'r system. Rydym yn dilyn egwyddorion tegwch, cyd-gynhyrchu a chyfrifoldeb ar y cyd i wneud newidiadau.
5. Sicrhau bod cleifion â'r anghenion mwyaf yn cael mynediad at driniaeth a gofal deintyddol rheolaidd, cynyddu'r pwyslais ar ataliol yng ngofal pob claf, gwneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau sydd gennym, a defnyddio sgiliau'r tîm cyfan yn y ddarpariaeth - dyma fydd y meysydd gwaith allweddol a'r ffocws wrth drawsnewid deintyddiaeth yn 2019 ac yn y blynyddoedd i ddod.

Cafwyd ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cael gwared ar y targedau presennol o ran Unedau Gweithgarwch Deintyddol gan greu system newydd yn hytrach, sy'n fwy priodol ac yn fwy hyblyg i fonitro canlyniadau gan ganolbwyntio ar ofal ataliol ac ansawdd triniaeth, ac yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn mewn chwe mis ar y cynnydd a wneir yn y trafodaethau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym wedi cydnabod bod y system gyfredol ar gyfer contractau angen ei diwygio, ac nad yw'r Unedau Gweithgarwch Deintyddol, fel unig ffordd o fesur perfformiad contract, sy'n canolbwyntio ar weithgarwch triniaeth yn unig, yn hybu gofal sy'n seiliedig ar anghenion cleifion, nac yn gwneud y defnydd gorau o sgiliau'r tîm deintyddol cyfan.

Mae camu i ffwrdd oddi wrth dargedau'r Unedau Gweithgarwch Deintyddol eisoes yn rhan o raglen diwygio contractau gyfredol y GIG. Fodd bynnag, mae angen parhau i ddatblygu mesuriadau canlyniadau cadarn i hybu rhagoriaeth mewn darpariaeth. Mae'r rhaglen ddiwygio gyfredol a luniwyd ar y cyd gyda chlinigwyr a rheolwyr contractau yn hwyluso datblygiad mesurau priodol o anghenion a chanlyniadau. Mae clinigwyr wedi bod yn cyfrannu at lunio newid a datblygu opsiynau.

Mae'r dull yn seiliedig ar ddefnydd gwell o sgiliau'r tîm cyfan, gan ddeall anghenion cleifion unigol, datblygu mesuriadau canlyniadau a chyfathrebu disgwyliadau ar gyfer y ddarpariaeth ar hyd y llwybr gofal. Mae hyn yn cefnogi mabwysiadu darpariaeth gofal ataliol priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn ateb anghenion a lleihau archwiliadau ailadroddus gwastraffus i'r cleifion hynny sydd ddim angen ymweliadau mynych o'r math.

Yn ogystal, mae'r amrywiaeth yng ngwerth yr Unedau Gweithgarwch Deintyddol a'r cymhellion gwrthnysig a gynhyrchir ganddynt, yn gofyn am ddulliau newydd o gontractio. Mae'r rhaglen ddiwygio yn cael gwared ar Unedau Gweithgarwch Deintyddol gwerth isel o'r system a hefyd yn cyflwyno mesurau mwy ystyrlon sy'n seiliedig ar ansawdd, mynediad, risg ac angen ar lefel practis.

Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor ymhen chwe mis ar y cynnydd diweddaraf o ran diwygio contractau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr arian a gaiff ei adfachu a'i adennill gan fyrddau iechyd yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau deintyddol, ac yn monitro'r ailfuddsoddiad hwnnw, nes y sefydlir system newydd ar gyfer monitro canlyniadau (fel y sonnir yn argymhelliad 1).

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae dal byrddau iechyd i gyfrif am y buddsoddiad a wneir gan Lywodraeth Cymru yng ngwasanaethau deintyddol y GIG yn gyfrifoldeb craidd. Mae cyllidebau deintyddol gofal sylfaenol yn parhau wedi'u neilltuo ar gyfer y byrddau iechyd hynny heb ddau Gynllun Integredig Tymor Canolig wedi'u cymeradwyo'n olynol. Mae cyllidebau rhaglenni iechyd y geg Cynllun Gwên a Gwên am Byth yn parhau wedi'u neilltuo ar gyfer pob bwrdd iechyd.

Caiff y defnydd o adnoddau deintyddol o fewn y byrddau iechyd ei fonitro a'i graffu. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod yn rheolaidd â'r byrddau iechyd i annog buddsoddi effeithlon ac effeithiol mewn deintyddiaeth, yn cynnwys ail-fuddsoddi'n briodol unrhyw arian a gaiff ei adfachu neu ei adennill o ganlyniad i dangyflawni contract. Rhoddwyd sancsiynau ar fyrddau iechyd sydd heb wario eu dyraniad cyllideb ar gyfer deintyddiaeth yn llawn.

Rydym yn annog byrddau iechyd i ddarparu cymorth gydol y flwyddyn i ddarparwyr deintyddol sy'n cael trafferth cyflawni targedau gweithgarwch cyfredol, gan ddefnyddio egwyddorion diwygio contract yn hytrach na dim ond disgwyl i adennill arian ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y set ehangach o fesurau monitro ynghyd â gwaredu'r Unedau Gweithgarwch Deintyddol gwerth isel a gyflwynir o dan y rhaglen ddiwygio yn helpu i leihau'r angen i fyrddau iechyd adfachu cyllid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i fyrddau iechyd gyflwyno adroddiad blynyddol ar y lefel o gyllid a adennillwyd o ganlyniad i dangyflawni contract a manylion ynghylch ble mae'r adnoddau wedi cael eu hailfuddsoddi. Bydd angen rhoi ystyriaeth i reolau cyfrifyddu a hefyd i'r dymuniad o weld dull cytbwys ar gyfer cynllunio tymor hir gan bractisau a byrddau iechyd. Caiff byrddau iechyd eu hannog i gefnogi a gweithio gyda phractisau mewn perygl. Fodd bynnag, os na chyflawnwyd lefelau'r ddarpariaeth gwasanaeth a gytunwyd yn y contract, bydd rhaid cadw'r opsiwn o adennill arian er mwyn diogelu arian cyhoeddus.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad i benderfynu a yw'r system recriwtio ar draws y DU yn effeithiol wrth gefnogi strategaeth i gynyddu cyfradd recriwtio pobl sy'n hangu o Gymru a lefelau cadw myfyrwyr yn gyffredinol ar ôl hyfforddiant.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru, Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) eisoes wedi bod yn cynnal trafodaethau ar Hyfforddiant Sylfaenol Deintyddol. Cynhyrwyd papur trafod yn 2018 gan Ddeoniaeth Cymru (sy'n rhan o AaGIC bellach) yn amlinellu'r materion cyfredol yn ymwneud â'r cynllun recriwtio ar draws y DU (sy'n cynnwys Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon), a chynigwyd opsiynau a gweithredoedd angenrheidiol i sicrhau gwelliannau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae AaGIC yn casglu ac yn dadansoddi data i gysylltu â chynllunio gweithlu, ac i fesur y risgiau o dynnu'n ôl yn rhannol neu'n llawn o gynllun y DU. Rydym yn derbyn bod angen gwerthusiad o gynllun y DU a byddwn yn trafod gydag AaGIC ynglŷn â sut i fwrw ati yn hyn o beth, gan adeiladu ar y gwaith archwilio cychwynnol.

Yn dilyn ystyriaeth gynharach, cytunwyd i ganolbwyntio ar dri maes penodol:

- i) gweithio gydag Ysgol Ddeintyddol Caerdydd i gynyddu nifer yr ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n hangu o Gymru;
- ii) gwella recriwtio, darpariaeth a chyfraddau cadw yn dilyn Hyfforddiant Sylfaenol Deintyddol; a
- iii) gweithio gyda byrddau iechyd i hwyluso ac i gymhell pobl i aros yma yn dilyn hyfforddiant.

Mae Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd wedi ymgysylltu â'r Gymdeithas Ddeintyddol ac eraill er mwyn cyrraedd pob ardal yng Nghymru a chynyddu ceisiadau. Yn y flwyddyn academaidd 2018/19, roedd bron i 50% o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn hangu o Gymru. Fodd bynnag, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth, gofynnodd Llywodraeth Cymru ac AaGIC i Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd fynd ymhellach ac ystyried gofynion mynediad hyblyg i gymhell myfyrwyr o Gymru i ymgymryd â deintyddiaeth, gan gynnwys dadansoddi a allai'r defnydd o benderfynyddion diwylliannol a chymdeithasol gael eu hymgorffori yng ngofynion mynediad Prifysgol Caerdydd. Gofynnwyd iddynt hefyd gynnig ac ymestyn cyrhaeddiad blwyddyn gofrestru cyn-glinigol er mwyn annog ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n hangu o Gymru, yn enwedig o ardaloedd y Gorllewin a'r Gogledd-orllewin lle mae'n anodd recriwtio i'r maes, ac ystyried cyfraddau gostyngedig i ymgeiswyr lleol o ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod yn gyson â byrddau iechyd yn ogystal, ac yn gofyn i adnoddau deintyddol wedi'u neilltuo gael eu defnyddio i gynorthwyo gyda sefydlu cyfleoedd cyflogaeth dilynol i'r rhai sy'n cwblhau'r Hyfforddiant Sylfaenol Deintyddol ac sy'n dymuno aros yng Nghymru yn dilyn y flwyddyn hyfforddiant, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'n anodd recriwtio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cyfadran Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ym Mhrifysgol Bangor. Ei nod yw gweithio gyda cholegau addysg a darparwyr hyfforddiant i osod fframweithiau addysgol clir ac i fonitro ansawdd hyfforddiant. Bydd yn datblygu gallu ymchwil, arweinyddiaeth a sgiliau Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae ei gynllun gwaith yn cynnwys cyd-gynhyrchu fframwaith ar gyfer gweithlu Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd AaGIC hefyd yn edrych ar gomisiynu'r niferoedd sy'n hyfforddi, pecynnau hyfforddiant ac addysg i helpu i ddatblygu'r gweithlu, ac yn ystyried a oes modelau gweithlu mwy

effeithiol i ddarparu gwasanaethau a allai wella llwyth gwaith deintyddion a gwneud practisau'n fwy cynaliadwy.

Goblygiadau Ariannol – Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â byrddau iechyd i ddatblygu strategaeth glir i sicrhau bod y system atgyfeiriadau electronig ar gyfer gwasanaethau orthodontig yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol wrth sicrhau y ceir atgyfeiriadau priodol, wrth flaenoriaethu cleifion ac wrth leihau amseroedd aros.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae atgyfeiriadau orthodontig eisoes yn rhan integredig o'r system rheoli atgyfeiriadau electronig o fewn y strategaeth gyfredol a gafodd ei rhannu gyda byrddau iechyd cyn ei lansiad ym mis Mawrth 2019. Mae'n bwysig nodi bod y system yn cwmpasu pob arbenigedd deintyddol.

Yn ogystal, caiff gwerthuso ac adrodd ar ansawdd atgyfeiriadau orthodontig ei ymgorffori yn y system a fydd yn monitro ac yn nodi ymarferwyr sy'n danfon atgyfeiriadau gwael, h.y. atgyfeiriadau yn rhy gynnar, sydd ddim yn cyflawni'r meini prawf derbyn 'angen clinigol', cleifion sydd ag iechyd y geg gwael neu ddim cymhelliant i chwarae eu rhan i gael canlyniad cadarnhaol drwy driniaeth orthodontig.

Mae rhai ymarferwyr yn cyfaddef i atgyfeirio yn rhy gynnar er mwyn ystyried amseroedd aros posibl, ac wrth wneud hynny yn ychwanegu pwysau ar y system. Gofynnir i ddeintyddion sy'n gwneud atgyfeiriad yn y system electronig gadarnhau bod angen clinigol, iechyd y geg da ac addasrwydd priodol ar gyfer triniaeth orthodontig cyn gwneud atgyfeiriad, a dylent wneud hynny ond pan mae plentyn yn barod am ofal. Caiff hyn ei fonitro gan fyrddau iechyd a bydd ymarferwyr sy'n gwneud atgyfeiriadau gwael neu atgyfeiriadau niferus eu nodi. Mae'r system hefyd yn cynnwys adnodd gosod blaenoriaethau i sicrhau mai'r rhai â'r anghenion mwyaf sy'n cael eu gweld gyntaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ariannu rhaglen y Cynllun Gwên yn ddigonol i alluogi plant dros 5 oed i gael yr un manteision ag y gwnaethant cyn i'r rhaglen gael ei hailstrwythuro.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i egluro'r camsyniad nad yw plant 6-7 oed wedi gallu elwa ar fanteisio amlwg y rhaglen Cynllun Gwên o ganlyniad i ailstrwythuro'r rhaglen. Nid yw hynny'n wir.

Tra'r oedd ailstrwythuro Cynllun Gwên a'r Cylchlythyr Iechyd Cymru ategol a gyflwynwyd i'r GIG yn rhoi mwy o bwyslais ar blant 0-5 oed, cydnabuwyd gwerth cynnig y cyfle o gynnwys plant Blwyddyn 1 a 2 (plant 5-7 oed). Ni chafwyd unrhyw ostyngiad mewn arian na darpariaeth.

Fel rhan o ailstrwythuro'r rhaglen Cynllun Gwên, cafodd y ddarpariaeth o selio tyllau ei disodli gan farnais fflworid. Dengys ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth ei fod yr un mor effeithiol yn glinigol, yn fwy effeithlon o ran cost, ac yn dderbyniol o safbwynt adnoddau

clinigol ac amser ysgol. Ceir tystiolaeth gadarn bod plant sy'n rhydd o bydredd yn 5 oed yn parhau felly nes eu bod yn oedolion.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglenni sydd eisoes yn bodoli i wella iechyd y geg er mwyn gwella iechyd y geg ymhlith plant hŷn a phobl yn eu harddegau cynnar yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae timau Cynllun Gwên wedi datblygu adnoddau i gefnogi gwersi i blant hŷn mewn ysgolion cynradd (Blwyddyn 6 h.y. 10-11 oed). Nid yw'r plant hyn yn cymryd rhan uniongyrchol yn y Cynllun Gwên ond mae gwersi a gyflwynir gan athrawon yn cefnogi ac yn atgyfnerthu negeseuon ac egwyddorion Cynllun Gwên ac yn cefnogi elfennau gofynnol y cwricwlwm ysgol. Mae darparu adnoddau dysgu yn seiliedig ar dystiolaeth yn golygu nad yw timau Cynllun Gwên dan bwysau i ddarparu gwersi i blant hŷn sydd heb gael targedu ar gyfer Cynllun Gwên. Bydd adnoddau ar gael ar yr Hwb addysg – y plattform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru – y mae gan athrawon fynediad hawdd ato. Mae'r dull hwn yn helpu i barhau gwaith Cynllun Gwên gyda phlant hŷn a chaiff ei ategu gan y gwaith sylweddol a wneir gan dimau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chymunedol sy'n ymgysylltu â phlant hŷn ac oedolion ifanc er mwyn helpu i ledaenu ymhellach y wybodaeth am gamau ataliol angenrheidiol a negeseuon allweddol y rhaglen.

Fel rhan o'u haddysg, mae plant yn dysgu sgiliau sy'n gosod sylfaen dda iddynt drwy gydol eu hoes. Mae brwsio dannedd yn esiampl dda ble, fel rhan o'r Cynllun Gwên, maent yn dysgu sgiliau ac yn dod i ddeall pam fod brwsio dannedd a gofal deintyddol yn bwysig. Pan fyddant yn cyrraedd yr oed priodol, rydym yn disgwyl i blant barhau â'r pethau y maent wedi eu dysgu drostynt eu hunain a'u defnyddio mewn bywyd bob dydd. Mae brwsio dannedd fel unrhyw sgil a dysgu arall, ac erbyn iddynt gyrraedd tua 7 oed, fe ddylent fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am hyn a brwsio'n rheolaidd gartref.

Derbynnir bod angen i ni hybu mynediad at ofal deintyddol sylfaenol ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau. Practis deintyddol cyffredinol yw conglaen darpariaeth gofal deintyddol a gwyddom fod mwy na 8 allan o bob 10 plentyn 6-15 oed yn mynychu'r deintydd yn rheolaidd. Mae gan y rhaglen diwygio contractau rôl gynyddol i sicrhau darpariaeth 'o'r hyn y gwyddom sy'n gweithio' mewn darpariaeth gofal ataliol seiliedig ar dystiolaeth, i ateb anghenion unigol ac i gynorthwyo cleifion i fabwysiadu ymddygiad a gweithredoedd i wella ac i ddiogelu iechyd y geg.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y bobl ifanc mwyaf bregus, yn enwedig y rhai â phydredd dannedd difrifol, angen mynediad at wasanaeth ataliol a thriniaeth ymatebol. Yn aml, mae angen i'r gwasanaethau hyn gynnwys llonyddu a/neu Therapi Ymddygiad Gwybyddol i lawer o'r bobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi cael eu heffeithio'n fwyaf difrifol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth epidemiolegol i asesu ac i ddeall anghenion y grŵp oedran 12-21. Bydd y canlyniadau yn helpu i hysbysu dulliau'r dyfodol i ateb anghenion y grŵp oedran hwn o ran rhaglenni a gwasanaethau ataliol. Rydym eisoes wedi sefydlu Fforymau Cynghori Strategol Cenedlaethol ar gyfer Deintyddiaeth Bediatrig a hefyd ar gyfer Llonyddu. Mae'r grwpiau hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru nid yn unig i gynllunio rhaglenni ymyrraeth iechyd y geg ataliol, ond hefyd i wella mynediad at wasanaethau clinigol priodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.